# Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar

# Blant sy'n Derbyn Gofal

## DYDD MERCHER 29 MEHEFIN 2015

## 12.00–13.30

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol:**

David Melding AC, y Dirprwy Lywydd – Cadeirydd

Aled Roberts - AC

Tomos Davies – staff cymorth Angela Burns AC

**Yn bresennol:**

Rhian Williams, Cynorthwyydd Personol/Ysgrifennydd Gweinyddol, Voices From Care

Christopher Dunn, Cydlynydd Datblygu, Voices from Care

**Cafwyd ymddiheuriadau gan:**

Janet Haworth - AC

Janet Finch-Saunders - AC

Menna Thomas, Swyddog Ymchwil a Pholisi, Barnardo's

Hywel Ap Dafydd – Swyddog Polisi, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru

Deborah Jones, Prif Swyddog Gweithredol, Voices From Care

Dr Emily Warren, Cyfarwyddwr, Rhwydwaith Maethu Cymru

Maria Boffey, Rheolwr Datblygu Busnes Cymru, Rhwydwaith Maethu Cymru

**CROESO A CHYFLWYNIAD GAN Y CADEIRYDD**

Agorodd DM y cyfarfod a chroesawodd y rhai oedd yn bresennol.

**COFNODION**

Nodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Chwefror 2015 a chawsant eu cymeradwyo.

**MATERION YN CODI**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**ETHOL CADEIRYDD AC YSGRIFENNYDD**

Cynigiwyd gan Aled Roberts AC, ac eiliwyd gan Angela Burns AC, y dylid ailethol drwy gadarnhad DM fel cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant sy'n Derbyn Gofal, ac R. Williams yn Ysgrifennydd y grŵp.

**CYFARFODYDD Y DYFODOL**

Yn dilyn digwyddiad diweddar yn y Senedd fel rhan o'i Ymgyrch Pythefnos Gofal Maeth ac mewn ymateb i gynnig Dr. Warren i Rwydwaith Maethu Cymru wneud cyflwyniad mewn cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant sy'n Derbyn Gofal yn y dyfodol neu i gyflwyno gwybodaeth briffio i'r grŵp, cytunwyd y byddai'r grŵp yn hapus i gadw mewn cysylltiad, gan fod Aelodau'r Cynulliad o'r grŵp wedi mynd i'r Digwyddiad Cyfarfod Brecwast.

**UNRHYW FATER ARALL**

Dywedodd CD fod Voices From Care wrthi'n gweithio gyda'u partneriaid 5 Gwlad, gan gynnwys Gweriniaeth Iwerddon, ac fel rhan o ddigwyddiad cenedlaethol sy'n gobeithio cynnal digwyddiad ddydd Gwener 19 Chwefror 2016, yn dathlu llwyddiannau ac ochr gadarnhaol derbyn gofal a gadael gofal. Eglurodd CD byddai'r digwyddiad yn rhywbeth penodol i bobli fanc. Cytunodd DM i noddi Voices From Care drwy gynnal y digwyddiad yn Adeilad y Pierhead.

**CAM I'W GYMRYD: BYDDAI CD YN DRAFFTIO SYNIADAU PENDANT AC YMARFEROL AR GYFER Y DIGWYDDIAD.**

**CAM I'W GYMRYD: S. SHARPE A RW I GYDWEITHIO O RAN NEILLTUO LLE YN Y PIERHEAD**

Aeth CD ymlaen gan ddweud y byddai pob un o'r 5 gwlad yn cynnal digwyddiad ar yr un diwrnod, gyda phobl ifanc yn rhannu arfer da. Teimlai DM fod hyn yn syniad gwych a dywedodd fod tuedd yn rhy aml i bwysleisio elfennau negyddol derbyn gofal ac y dylem hefyd ganolbwyntio ar y pethau cadarnhaol; er enghraifft, yr hyn sy'n gweithio, i ddod â rhywfaint o gydbwysedd. Roedd AR yn teimlo nad oedd rhai o'r pethau cadarnhaol yn gysylltiedig ag adnoddau.

**CAM I'W GYMRYD: AR I ROI MANYLION A DOD O HYD I GYN BRENTISIAID O GYNLLUN LLEOL A ALLAI O BOSIBL DDOD I'R DIGWYDDIAD HWN.**

Rhoddodd DM grynodeb o'r hyn y mae'r grŵp wedi edrych arno o ran Strategaeth y Llywodraeth, yn benodol Cyrhaeddiad Addysgol fel rhywbeth y gallai'r grŵp ganolbwyntio arno, gan adael etifeddiaeth ar gyfer y Cynulliad newydd. Cododd cwestiwn ynghylch canlyniad cael cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant sy'n Derbyn Gofal.

**CAM GWEITHREDU: DM YN RHOI CYNLLUN WRTH GEFN AT EI GILYDD A THREFNU OLYNYDD**

Cadarnhaodd DM ei fod wedi ymateb i'r ymgynghoriad ar ran y Grŵp Trawsbleidiol sy'n Derbyn Gofal, gan bwysleisio'r rhannau pwysig.

Dywedodd AR fod dryswch ynghgylch y Bil Anghenion Ychwanegol; y disgwylir iddo gael ei gyflwyno fel Bil drafft a'r Cod Ymddygiad drafft a phryd yn union y byddai'n cael ei ryddhau. Parhaodd AR gan ddweud bod problemau pwysig lle roedd y Llywodraeth yn erbyn dilyn yr un trywydd â Lloegr a'r Alban o ran cynlluniau a dyletswyddau ar awdurdodau lleol, gan ychwanegu nad oes unrhyw gostau wedi'u pennu hyd yn hyn, a oedd yn codi'r cwestiwn ei bod yn broses a gynlluniwyd.

Dywedodd DM hyd yn hyn, nid oes unrhyw alwad am dystiolaeth wedi mynd allan a phwysleisiodd yr angen i gadw llygad ar hyn a phwysigrwydd adrodd yn ôl i unrhyw ymgynghoriad, gan ychwanegu pa mor bwysig ydoedd i Voices From Care gyfrannu a chysylltu gydag ef.

Cafwyd trafodaeth fer ynghylch prosiectau yng ngogledd Cymru, yn enwedig prosiect Wrecsam Warehouse a'i lwyddiant o ran creu cyfleoedd a phrofiad gwaith i bobl ifanc. Mae'r prosiect Warehouse, sy'n cael ei redeg gan berson sydd wedi bod mewn gofal/gofalwr maeth, yn darparu hyfforddiant mewn, er enghraifft, gosod brics, plastro, gwaith saer, mecaneg ac ati

**<u>DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF</u>**

**CAM I'W GYMRYD: RW I GYSYLLTU AG S. SHARPE AR GYFER DYDDIAD CYFARFOD YR HYDREF**